

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 7fed 2014 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gethin Morris (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Gwenda Morris, Eifion Davies a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Alwyn Roberts, Tina Davies, Maldwyn Jones, Alwyn Jones ag Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## **Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### Ethol cynghorwyr newydd.

Derbyniwyd llythyrau o ddiddordeb gan Gary Thomas, Pencefn, Sarnau a Dewi Pritchard, Hengwm, Bethel. Cytunwyd i'w cyfethol a'u gwahodd i'r cyfarfod ym mis Tachwedd.

### Materion y Mynwentydd.

#### Frongoch a Llandderfel.

Roedd y clerch wedi derbyn prisiau ar gyfer torri y coed a thaclo'r mynwentydd. Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd a chytunwyd i ofyn i Brian Evans dorri'r coed a ail godi'r waliau cerrig ym mynwent Frongoch a Cwmni Ciltalgarth i dorri'r gwrych a'r gwaith taclo arall ym mynwent Llandderel. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu a'r ymgeiswyr i drefnu'r gwaith. Cytunwyd hefyd i yrru cais i Gyngor Gwynedd am gyfraniad tuag at y gwaith cyfalaf o dan eu Cynllun Diffyg yn y Cyfrif Claddu.

### Wal gynnal mynwent Llanfor.

Adroddodd y clerch yr adborth a dderbyniwyd gan Chyngor Gwynedd, Yr Eglwys yng Nghymru a CADW ynglyn a pherchnogaeth y wal. Cytunwyd i dalu'r ffi perthnasol i gael copi o'r dogfennau a oedd yn ymwneud a trosglwyddiant y fynwent i'r Cyngor Cymuned cyn trafod y mater ymhellach.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfodydd diwethaf a cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd gan y clerch.  
ii) Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu sesiwn hyfforddiant 'Datgonoli Gwasanaethau' a oedd yn gael ei drefnu gan y Bartneriaeth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nag oedd yr hyfforddiant yn berthnasol i'r Cyngor ar hyn o bryd.

### b) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - mis Medi 2014.  
ii) Llanio Strategaeth Lletya Pobl Hyn – derbyniwyd llythyr yn egluro eu bod yn casglu data ac yn bwriadu drafftio strategaeth.  
iii) Her Gwynedd – derbyniwyd gwybodaeth am eu digwyddiadau cyhoeddus i drafod yr her ariannol sylweddol mae'r Cyngor yn ei wynebu.

c) Amrywiol

- i) Grwp Cynefin – gwybodaeth am eu grantiau datblygu cymunedol. . Gofynnwyd i'r clerc rhannu'r gwybodaeth gyda'r neuaddau lleol.
- ii) Vodafone - gwybodaeth am eu gwasanaeth 'Rural Open Sure Signal – 3G'. Gofynnwyd i'r clerc rhannu'r gwybodaeth eto gyda'r neuaddau lleol.
- iii) Heddlu Gogledd Cymru – Gwybodaeth am eu ymgyrch i dargedu modurwyr sy'n defnyddio ffonau symudol wrth yrru.

**Materion Ariannol.**

Derbyniwyd ail randal y Praesept.

Swyddfa Archwilio Cymru.

Derbyniwyd llythyr yn egluro bod y Swyddfa wedi penderfynu ailddosbarthu cronfeydd wrth cefn a bod £30 ar gael i pob Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru. Cytunwyd i lenwi'r ffurflen i hawlio'r arian.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Bethan Jones (Cyflog y clerc, Gorff – Medi)
- ii) Bethan Jones (ad-daliad costau'r 'Record Copying Enquires' – dogfennau mynwent Llanfor')

**Materion lleol.**

Coed yn gordyfu dros y ffordd ger Dewis Cyfarfod, Llandderfel.

Derbyniwyd cwynion bod canghennau'r coed yn gordyfu dros y ffordd ger Dewis Cyfarfod ac yn cau'r ffordd i fyny. Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater ymlaen i Gyngor Gwynedd.